



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democrataidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

Dyddiad ac Amser

4.00 y.h., DYDD MERCHER, 18FED TACHWEDD, 2020

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Annes Sion

01286 679490

AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2020)

CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

AELODAETH

Cynghorwyr Gwynedd

Anwen Davies
Simon Glyn
John Brynmor Hughes
Aled Wyn Jones
Gareth Williams

Eraill

Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.

Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd

Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol

Ymddiriedolaeth Genedlaethol,
Cyfoeth Naturiol Cymru,
Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,
Cyfeillion Llŷn,
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,
Undeb Amaethwyr Cymru,
Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,
Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,
Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2020/21.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2020/21.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 4 Rhagfyr 2019 fel rhai cywir.

7. CORONAFEIRWS

9 - 10

Bleddyn Prys Jones i roi diweddariad ar waith AHNE Llŷn yn ystod y pandemig.

8. DIWEDDARIAD AR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

11 - 30

Elin Hughes i roi diweddariad i aelodau'r Cydbwyllgor am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, sef cronfa grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

9. PROSIECTAU UNED AHNE LLŷN

31 - 33

Bleddyn Prys Jones i ddiweddarau aelodau'r Cydbwyllgor am brosiectau diweddar gan Uned AHNE Llŷn, Gwasanaeth Cefn Gwlad.

10. DYNODIAD AWYR DYWYLL

34 - 35

Bleddyn Prys Jones i roi diweddariad ar gais Awyr Dywyll.

CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 4/12/19

Yn bresennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cyngor Cymuned Botwnnog) (Cadeirydd)

Aelodau: Y Cynghorwyr Anwen Davies, Aled Wyn Jones a Gareth Williams (Cyngor Gwynedd) ynghyd â Molly Lovatt (Cyfoeth Naturiol Cymru), Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Brett Garner (Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn); Y Cynghorwyr Eirian Allport (Cyngor Clynog Fawr), Jina Gwyrfai (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog), Sianelen Plemming (Cyngor Cymuned Pistyll) a Gruffydd Williams (Cyngor Tref Nefyn).

Swyddogion: Bleddyn P. Jones (Swyddog AHNE Llŷn), Elin Wyn Hughes (Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Croesawyd Molly Lovatt i'r cyfarfod a nodwyd ei bod wedi cymryd drosodd gan Alun Price fel cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Cyd-bwyllgor.

1. CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Glyn Roberts yn gadeirydd y cyd-bwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.

2. IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd T.Victor Jones yn is-gadeirydd y cyd-bwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.

3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Simon Glyn a John Brynmor Hughes (Cyngor Gwynedd) a'r Cynghorydd Angela Russell (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd) ynghyd ag Andy Godber (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor), John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn) ac Andrew Davidson (Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd).

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYS

Ail-ddatblygu cytiau glan môr

Nododd y Swyddog AHNE Llŷn fod cynrychiolydd Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn, oedd yn methu bod yn bresennol yn y cyfarfod, wedi gofyn iddo godi mater ar ei ran mewn perthynas ag ail-ddatblygu cwt glan môr yn Abersoch. Eglurwyd bod yr aelod wedi datgan pryder bod y cwt newydd yn fwy na'r hen un a gafodd ei ddymchwel, ac wedi gofyn i'r swyddogion fynd i gael golwg arno. Nodwyd, fodd bynnag, er bod caniatâd cynllunio i ail-ddatblygu'r cwt wedi ei wrthod yn wreiddiol, bod y cais wedi'i ganiatáu'n ddiweddarach drwy apêl. Hysbyswyd y cynrychiolydd bod y drefn wedi'i dilyn yn yr

achos hwn, ond cydnabyddid bod yna bryder cyffredinol bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi yn weddol gyson i ddatblygiadau o'r math.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Swyddog AHNE Llŷn, gan fod yr apêl wedi'i chaniatáu yn yr achos hwn, nad oedd yna fawr ddim y gellid ei wneud am y sefyllfa.

Nododd aelod nad oedd y broblem hon wedi'i chyfyngu i gytiau glan môr yn unig a bod yna lawer o dai sylweddol o ran maint yn cael eu caniatáu ar draws y cymunedau.

Nododd aelod mai cymharol ychydig geisiadau oedd yn dod gerbron Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd bellach gan fod gan y swyddogion lawer mwy o hawliau dirprwyedig i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Nododd fod ceisiadau am dai gan bobl leol yn cael eu gwrthod ar y sail nad ydynt yn dai fforddiadwy, ond roedd sefyllfa'r farchnad dai mewn llefydd fel Abersoch a Llanengan yn golygu nad oedd unrhyw dai yn fforddiadwy yno. Pwysleisiodd fod rhaid pwysu ar y drefn gynllunio neu ni fyddai yna bobl Cymraeg yn byw yn yr ardaloedd hyn.

Nododd aelod fod y sgaffaldiau sy'n ffurfio sylfaen y cytiau glan môr yn Nefyn yn cael eu gadael yno trwy gydol y flwyddyn ac yn creu blerwch.

Nododd y Swyddog AHNE Llŷn y gellid rhoi sylw i'r materion hyn wrth adolygu'r cynllun rheoli.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyd-bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2019, fel rhai cywir.

7. MATERION CENEDLAETHOL

Cyflwynodd y Swyddog AHNE Llŷn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys gwybodaeth bellach am y sefyllfa genedlaethol mewn perthynas â'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru.

Rhoddwyd diweddariad ar y datblygiadau canlynol:-

- Amcanion a themâu blaenoriaeth y ddogfen 'Cydnherth a Gwerthfawr – Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol'.
- Cynigion ar gyfer cynyddu cydraddoldeb gyda'r Parciau Cenedlaethol o ran statws, proffil ac adnoddau.
- Cynigion ar gyfer sefydlu Partneriaeth Tirlun Cenedlaethol Cymru.
- Penodiad Rheolwr Datblygu Cymru i gynorthwyo Partneriaethau AHNE i weithredu blaenoriaethau Cydnherth a Gwerthfawr Llywodraeth Cymru.
- Y cynigion yn deillio o'r adolygiad o'r tirweddau dynodedig yn Lloegr ("Glover Review") a'r prif gasgliad bod potensial i'r Ardaloedd Dynodedig wneud llawer mwy drwy gydweithio fel teulu o dan sefydliad newydd: "Tirweddau Cenedlaethol".

Nodwyd hefyd bod Unedau AHNE wedi cael cyfle yn ystod y blynyddoedd diweddar i roi cynigion am gyllid uniongyrchol i Lywodraeth Cymru er ariannu prosiectau a bod gwybodaeth am rai o'r prosiectau a ariannwyd gyda'r arian yma wedi ei chynnwys yn yr adroddiad ar Brosiectau'r Uned AHNE.

Yn dilyn ymlaen o'r drafodaeth o dan eitem 6 uchod, nododd y Swyddog AHNE Llŷn fod cynigion yr adolygiad o'r tirweddau dynodedig yn Lloegr yn cyfeirio at roi mwy o ddylanwad i'r AHNE'au gyda materion cynllunio. Byddai'n rhaid cadw golwg ar y sefyllfa yma ac adrodd yn ôl i'r cyfarfodydd nesaf.

O safbwynt yr ariannu, nodwyd mai £59,000 a ddyrannwyd i AHNE Llŷn allan o'r £4m ar gyfer ardaloedd dynodedig, tra bo Môn wedi derbyn £350,000. Holwyd beth oedd y meini prawf, sut bod Môn wedi llwyddo i ddenu swm sylweddol uwch a sut roedd y Llywodraeth yn penderfynu ar y dyraniad.

Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog AHNE y derbyniodd yr Uned wahoddiad byr rybudd i roi cynigion i mewn. Ychydig o ganllawiau a dderbyniwyd, ac eithrio nodi bod yr arian ar gyfer prosiectau cyfalaf yn unig. Roedd hynny'n cyfyngu ar yr Uned o safbwynt cynlluniau, a hefyd o ran y capasiti i wario'r arian erbyn diwedd Mawrth 2020. Gan hynny, cyflwynwyd cynigion ar sail yr hyn fyddai wedi bod yn bosib' ei gyflawni yn yr amser oedd ar gael. Eglurwyd bod Môn wedi cyflwyno cais sylweddol fwy. Nid oedd yn amlwg sut y byddent yn llwyddo i wario'r arian erbyn diwedd Mawrth y flwyddyn nesaf.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, cytunwyd y byddai'n fuddiol cael rhywfaint o gynlluniau yn barod ymlaen llaw fel bod modd ymgeisio am ragor o arian ar yr adeg briodol.

Holwyd oedd modd trosglwyddo rhywfaint o arian Interreg ar gyfer y cynlluniau hyn, ond nodwyd na fyddai hynny'n bosib' gan mai prosiectau refeniw yn unig a ganiateir.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

8. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynodd y Swyddog AHNE Llŷn yr adroddiad, a oedd yn amlygu bod angen dechrau adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE a'r asesiadau amgylcheddol cysylltiol yn fuan, gan fod cyfnod gweithredu'r cynllun presennol yn dod i ben yn 2020.

Manylwyd ar gynnydd y gwaith hyd yma a'r amserlen ddrafft.

Awgrymwyd bod y bwriad i adolygu'r cynllun mewn blwyddyn yn uchelgeisiol iawn o ystyried bod yr adolygiad diwethaf wedi cymryd 4 blynedd.

Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog AHNE Llŷn y byddai yna lai o newidiadau y tro yma. Ad-drefnwyd y cynllun yn sylweddol y tro diwethaf ac hefyd fe osodwyd gwaith allan i ymgynghorwyr. Hefyd, y tro hwn, gobeithid y byddai'r cydweithio agosach gyda AHNE'au Bryniau Clwyd a Môn o gymorth i symud ymlaen yn gynt.

Awgrymodd aelod fod adolygu bob 5 mlynedd yn defnyddio llawer o adnoddau'r AHNE. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog AHNE Llŷn fod y Ddeddf Cefn Gwlad yn nodi bod rhaid cynnal adolygiad o'r cynllun bob 5 mlynedd, ac y byddai'n anodd newid y sefyllfa heb newid y ddeddf.

Holwyd, yn dilyn o'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan y Llywodraeth i effaith tai haf ar gyflenwad tai i bobl leol mewn ardaloedd gwledig, oedd modd rhoi mewnbyn o ran y sefyllfa tai haf yn yr AHNE.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog AHNE Llŷn y gellid yn bendant edrych ar hynny wrth gynnal yr adolygiad gan y byddai hynny'n dystiolaeth gefndirol ar gyfer y cynllun.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

9. PROSIECTAU'R UNED AHNE

Cyflwynodd y Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn adroddiad ar waith y Gwasanaeth AHNE. Rhoddwyd diweddariad ar y prosiectau canlynol:

- Hyfforddiant Sgiliau Gwledig
- Sbwriel Morol
- Rhywogaethau Ymledol
- Tanddaearu Gwifrau Trydan
- Cynnal Asedau – Cyfleon Gwirfoddoli
- Cystadleuaeth Ffotograffiaeth AHNE
- Prosiectau Cyfalaf – Cyllid Llywodraeth Cymru, sef:-
 - Eglwys Carnguwch - gwaith trwsio ac ail-osod giataiau a gosod arwyddion i gyfeirio o gyfeiriad Llwyndyrys
 - Gwaith adnewyddu wal derfyn Cae'r Nant a chreu bwlch fel lle pasio i gerbydau
 - Gwella Llwybrau Cilan
 - Gwella Mynediad i Dir Mynediad Bwlch Mawr, Gyrn Ddu, Gyrn Goch

Dosbarthwyd ychydig gopiâu o lyfryn gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ynglŷn â phrosiect ffermio "Talu am Ganlyniadau" ym Mhorth Gwylan, a nododd y Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn fod ganddi fwy o gopiâu yn y swyddfa petai'r rhywun yn dymuno copi.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Gan gyfeirio at y bwriad i osod tap dŵr cyhoeddus ger y toiledau yn Abersoch, nododd cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru fod modd darparu paneli wrth ymyl pwyntiau ail-lenwi yn egluro pam bod angen lleihau'r defnydd o blastigion. Awgrymwyd bod y Swyddog AHNE Llŷn yn trafod ymhellach gyda'r cynrychiolydd.
- Nododd aelod fod Jac y Neidiwr yn fwy o broblem na Changlwm Siapan gan ei fod yn lledaenu yn llawer cynt. Mewn ymateb, nododd y Swyddog AHNE Llŷn y byddai'r Uned yn dal i fynd ar ôl hyn, ond bod 'Himalayan Balsam' yn broblem fawr yn yr ardal bellach. Nododd fod y planhigyn wedi ymledu o'r mynydd yn Nefyn i lawr i'r traeth ac efallai y byddai'n brosiect da i ymgeisio am arian ar ei gyfer gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd fod llawer o waith wedi'i wneud ar hyn ym Môn a bod y bartneriaeth 'Himalayan Balsam' yno yn mapio'r ardaloedd hynny lle mae'r planhigyn yn tyfu. Awgrymwyd cysylltu â'r bartneriaeth ym Môn i weld oes modd ymestyn y gwaith mapio i gynnwys Llŷn hefyd.
- Nododd aelod nad oedd yna unrhyw beth ar wefan yr AHNE ynglŷn â'r Prosiect Awyr Dywyll, er bo cyfeiriad at hyn yn aml ar y gwefannau cymdeithasol. Mynegwyd dymuniad i weld llawer o ddigwyddiadau'n cymryd lle unwaith y byddai'r Swyddog Prosiect yn ôl yn ei gwaith.
- Holodd aelod a fyddai'n bosib' cael prosiect i gael gwared â'r coed helyg ar Garn Boduan gan fod perygl iddynt ymledu ac amharu ar yr olion yno. Awgrymodd y Swyddog AHNE Llŷn y gellid cynnwys hyn yn y cynllun rheoli. Nododd yr aelod y byddai'n pasio manylion cyswllt y perchennog ymlaen i'r swyddog.
- Nododd aelod fod Scottish Power wedi uwchraddio un o'u llinellau yn Sarn Bach a holwyd a fyddai'n bosib' trafod gyda hwy ymlaen llaw i weld a fyddai modd eu tanddaearu. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog AHNE Llŷn fod Scottish Power yn fwy awyddus i danddaearu mewn rhai llefydd nag eraill, a chyfeiriodd at dair

o linellau y bwriedir eu tanddaearu y flwyddyn nesaf. Awgrymwyd gofyn i Scottish Power ddarparu mapiau yn dangos y lleoliadau ar fap OS.

- Nododd aelod fod angen torri'r rhododendron gerllaw'r rhaeadr wrth fynd at Gyrn Goch.
- Nododd aelod fod y grisiau yn arwain i fyny at chwarel Tyddyn Hywel wedi'u gosod gan y cyn-weithwyr a'i bod yn werth eu dilyn yr holl ffordd i fyny i weld y gwaith yn y top.
- Nododd aelod ei fod yn hynod falch o'r gwaith adnewyddu wal derfyn Cae'r Nant a bod lledu'r ffordd wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Fodd bynnag, mynegodd aelod arall fod pryder am or-yrru ar y ffordd.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

10. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn a oedd yn manylu ar sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Nodwyd, o'r £55,000 oedd ar gael i'r Gronfa ar ddechrau blwyddyn ariannol 2019/20, bod y cyfan eisoes wedi ei glustnodi.

Nodwyd bod prosiect Ffynhonnau – Cadwch Gymru'n Daclus wedi ei dynnu'n ôl oherwydd diffyg arian cyfatebol ac y defnyddiwyd y tanwariant i ariannu'r prosiectau a ganlyn:-

- Sgyrsiau Hanes Lleol Bryncroes
- Arwyddion Newydd Eglwysi Bro Madryn
- Parêd Dewi Sant, Pwllheli
- Be Nawn Ni Heddiw?

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 4.30yh a daeth i ben am 5.35yh

CADEIRYDD

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	Tachwedd 18fed 2020
TEITL	Coronafeirws
PWRPAS	Diweddarau'r Aelodau
AWDUR	Swyddog AHNE
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Daeth y Coronafeirws i Ynysoedd Prydain yn nechrau 2020 a dechreuodd y cyfnod clo cyntaf ar 23ain o Fawrth. Yn ystod y cyfnod clo hwn roedd popeth heblaw siopa bwyd, modurdai a fferyllwyr ar gau a'r neges i bawb oedd i aros adref heblaw i ymarfer corff unwaith y dydd.
- 1.2 Roedd y newyddion dyddiol yn frawychus gyda'r niferoedd yn yr ysbytai ac mewn gofal dwys yn cynyddu yn ddyddiol a nifer marwolaethau yn dringo.

2.0 Y CYFNOD CLO

- 2.1 Roedd y cyfnod clo cyntaf, a oedd yn weithredol trwy y DU, rhan fwyaf o wledydd Ewrop ac yn wir llawer o wledydd y byd yn gyfnod hollol digynsail yn ein hanes.
- 2.2 Ar y cyfan roedd presenoldeb y feirws yng Nghymru, yn enwedig y siroedd gwledig fel Gwynedd yn isel ond roedd pawb yn wiliadwrus iawn ac yn cymeryd camau i warchod eu hunain a'r gymuned.
- 2.3 Roedd misoedd cyntaf y cyfnod clo yn dywydd braf a'r dyddiau yn hir. Ychydig iawn o draffig oedd ar y ffyrdd ac roedd pobol yn cerdded llwybrau a thiroedd yn agos i'w cartrefi. Daeth llawer i wybod mwy am eu hamgylchedd leol a sylwi a gwerthfawrogi ar fyd natur. Roedd mwy o ddefnydd ar siopa lleol, cynnyrch lleol a gwasanaethau ar y we.
- 2.4 Roedd y cyfnod clo yn anodd iawn i lawer o bobol oherwydd nad oedd yn bosibl gweld teulu a ffrindiau a'r cyfyngiadau oedd yn bodoli. Yn Llŷn, fel llawer o ardaloedd twristaidd eraill, roedd pryder fod rhai perchnogion ail-gartrefi ac ymwelwyr wedi dod i'r ardal a gwelwyd arwyddion gyda negeseuon yma ac acw.

3.0 Y DADGLOI

- 3.1 Gyda'r dad-gloi, a ddigwyddodd yn weddol gyflym, daeth pryderon am iechyd cymunedau lleol, cynnydd mewn trafnidiaeth a phrysurdeb. Ar y llaw

arall roedd llawer o fusnesau oedd wedi bod ar gau yn falch o fedru ailagor ac ennill incwm felly dod a budd economaidd i'r ardal.

- 3.2 Mae'n ymddangos fod y pandemig wedi cael effaith ar y farchnad dai yn lleol (Penrhyn Llŷn). Yn y misoedd diwethaf mae llawer o dai wedi eu gwerthu, yn ôl y sôn, i bobol tu allan i'r ardal ac mae prisiau tai wedi cynyddu. Mae hyn wedi codi pryderon a thensiynau yn lleol.
- 3.3 Y canfyddiad oedd fod y niferoedd o ymwelwyr yn uwch, os nad yn sylweddol uwch, yn yr ardal. Dydi hynny ddim i'w synnu o ystyried fod pobol wedi bod dan glo am gyfnod mor hir ac fod cyfyngiadau a/ neu risgiau ar deithio tramor. Yn anffodus nid oes ffigyrau lleol safonol am niferoedd ymwelwyr ac mae achos i wneud arolygon cyson yn y dyfodol i gael darlun clir o'r sefyllfa.

4.0 YR UNED AHNE

- 4.1 Oherwydd y pandemig roedd pob digwyddiad cyhoeddus wedi eu canslo ac nid oedd yn bosibl hyrwyddo'r AHNE trwy'r dull hwn. Fodd bynnag roedd cyfathrebu cyson rhwng swyddogion i drafod effaith ac oblygiadau y pandemig, y cyfyngiadau, effaith ar brosiectau ayb.
- 4.2 Bu raid canslo digwyddiadau fel hyfforddiant sgiliau gwledig, teithiau cerdded, sgysiau, gwaith gyda gwirfoddolwyr ayb yr oeddem wedi bwriadu eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Gobeithio gellir ail-afael yn hyn yn 2021.
- 4.3 Ni fu yn bosibl i ddosbarthu Llygad Llŷn yn ystod y Pasg fel a fwriadwyd ond llwyddwyd i wneud hynny yn mis Awst ar ôl i'r cyfyngiadau lacio. Cafodd y newyddlen ei dosbarthu trwy'r post, fel rhan o Llanw Llŷn ac thrwy rhai siopa ac atdyniadau oedd wedi ail-agor.
- 4.4 Defnyddiwyd peth o'r amser yn ystod yr haf eleni i adolygu safle we AHNE Llŷn. Penderfynwyd llunio safle fyddai yn debycach i rai AHNE eraill Cymru ac yn haws i'r defnyddio – yn cynnwys ar ffôn symudol. Hefyd diweddarwyd yr wybodaeth a'r lluniau ar y safle a chynnwys linciau i brosiectau diweddar a'r cyfri Instagram. Bydd y safle newydd yn haws i'w diweddarau yn y dyfodol. Gweler www.ahne-lyn-aonb.org.
- 4.5 Roedd rhai ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod clo ac fel roedd cyfyngiadau yn llacio roedd y niferoedd yn cynyddu. Mae'r Uned wedi parhau i roi sylwadau ar geisiadau perthnasol.

5.0 ARGYMHELLIAD

- 5.1 Derbyn yr wybodaeth.

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	18 Tachwedd 2020
TEITL	Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy
PWRPAS	Diweddaru'r Aelodau
AWDUR	Elin Wyn Hughes - Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn rhoi diweddariad i aelodau'r Cydbwyllgor am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, sef cronfa grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

2.0 CRYNODEB GWARIANT 2019/2020

- 2.1 Cafwyd **£55,000** yn y Gronfa ar ddechrau blwyddyn ariannol 2019/20. Cefnogwyd 14 o brosiectau a'r holl gyllid yn cael ei ddyrannu. Mae'r wybodaeth ar gael yn llawn yr Adroddiad Blynnyddol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Gweler **Atodiad 1**.

3.0 CRYNODEB GWARIANT 2020/21

- 3.1 Cafwyd cadarnhad fod **£100,000** yn y Gronfa ar gyfer **2020/21**. Hyd yma (sef dyddiad y cyfarfod hwn) – mae **£6,361** yn weddill ac angen ei glustnodi. Mae **Atodiad 2** yn dangos crynodeb o'r gwariant.

4.0 ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn

Adroddiad Blynyddol 2019-2020

Awdur: Elin Wyn Hughes – Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn

Awst 5ed 2020

1.0 CEFNDIR

- 1.1** Cyflwynir yr adroddiad hwn i ddarparu gwybodaeth am sefyllfa gwariant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-2020.

2.0 GWAITH UNED AHNE LLŷN

- 2.1** Gweinyddwyd y Gronfa gan Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn. Roedd y gwaith yn cynnwys ymateb i ymholiadau, anfon ffurflenni cais a dogfennau cefndirol a rhoi cyngor ar baratoi ceisiadau. Pan ddaeth ceisiadau i law, roedd y gwaith yn cynnwys asesu yn unol â'r meini prawf a sicrhau penderfyniad.

- 2.2** Ar gyfer ceisiadau grant o dan £3,000, bu staff yr Uned AHNE yn penderfynu arnynt yn unol â'r hawl dirprwyedig. Ar gyfer ceisiadau o dros £3,000, bu cydweithio â Phanel Grantiau ar gyfer ymdrin â hwy a dod i benderfyniad. Mae aelodau'r Panel Grantiau wedi eu dethol o brif Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn. Mae'r gynrychiolaeth fel a ganlyn:-

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor
- Cyngor Gwynedd
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Cyngor Cymuned Llanbedrog
- Cyngor Cymuned Clynnog Fawr
- Cyngor Tref Nefyn
- Partneriaeth Twristiaeth Abersoch a Llŷn

- 2.3** Mae llawer o waith yr Uned AHNE hefyd wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth am y Gronfa drwy fynychu sioeau a digwyddiadau, cynhyrchu erthyglau i'r wasg a rhoi gwybodaeth drwy'r cyfryngau_cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cyfrif Instagram swyddogol AHNE Llŷn (@ahnellynaonb) a thrwy gyfrifon swyddogol Twitter a Facebook Cyngor Gwynedd. Mae gan AHNE Llŷn wefan hefyd sy'n darparu enghreifftiau o_brosiectau llwyddiannus ac ymarfer da (www.ahne-llyn-aonb.org).

3.0 CRYNODEB ARIANNOL

- 3.1 Clustnodwyd **£55,000** i'r Gronfa yn y flwyddyn ariannol dan sylw a dyrannwyd yn llawn. Dyma'r crynodeb o'r prosiectau a gefnogwyd i gyd :-

CYFEIRNOD	PROSIECT	HAWLIWYD
CDC 18.6	Amgueddfa Forwrol Nefyn	£2,800.00
CDC 18.16	Awyr Dywyll Tirweddau Dynodedig Gogledd Cymru	£3,000.00
CDC 18.17	Gwyl Fwyd Pwllheli	£3,000.00
CDC 19.1	Hen Siop Plas Carmel	£11,981.00
CDC 19.2	Taith Tridiau Llŷn	£1,500.00
CDC 19.3	Hafod Ceiri	£5,300.00
CDC 19.4	Wal Mynwent Eglwys Clynnog Fawr	£4,319.00
CDC 19.5	Gwyl R S Thomas	£990.00
CDC 19.10	Sgyrsiau Hanes Lleol Bryn croes	£610.00
CDC 19.11	Capel Ceidio	£4,000.00
CDC 19.12	Tafarn yr Heliwr	£8,610.00
CDC 19.14	Arwyddion Newydd Eglwysi Bro Madryn	£750
CDC 19.16	Parêd Dewi Sant Pwllheli	£2,080.70
CDC 19.17	Be Nawn Ni Heddiw	£1,000
Hawliad Gweinyddol Uned AHNE Llŷn		£5,059.30
CYFANSWM		£55,000

- 3.2 Roedd cyfanswm gwerth yr holl brosiectau yn eu cyfanrwydd yn cyrraedd **£473,192.15**.
- 3.3 O'r prosiectau uchod, cafodd 6 eu cyflwyno gerbron y Panel Grantiau am benderfyniad. Dyma ddyddiadau'r pwyllgorau hynny:-

19 Rhagfyr 2018:-

CDC 19.1 – Prosiect Plas Carmel

10 Ebrill 2019

CDC 19.2 – Taith Tridiau Llŷn

CDC 19.3 – Hafod Ceiri

CDC 19.4 – Wal Mynwent Eglwys Clynnog Fawr

CDC 19.11 – Capel Peniel, Ceidio

CDC 19.12 - Tafarn yr Heliwr

Mae copi o adroddiadau'r pwyllgorau hyn yn ogystal â'r cofnodion i'w cael yn **Atodiad 1** o'r adroddiad hwn.

4.0 DADANSODDIAD O BROSIECTAU UNIGOL

- **CDC 18.6 Amgueddfa Forwrol Nefyn**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy:- £2,800 (71%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £3,959

**Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £784 – 20% (Cronfa Dreftadaeth y Loteri)
£375 – 9% (Amser Gwirfoddol)**

Roedd y nawdd ar gyfer cefnogi'r Amgueddfa Forwrol dros gyfnod yr haf. Dyma'r adeg o'r flwyddyn ble mae prysurdeb o ran gweithgareddau i blant, gweithgareddau teuluol a sgysiau hanes lleol yn cael eu cynnal. Mae cynnydd yn y nifer o ddefnyddwyr cyffredinol hefyd yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y cais hwn yn arbennig ar gyfer costau un staff ychwanegol. Mae'r sawl sydd wedi ei phenodi yn gyfrifol am drefnu a chydlynu gweithgareddau ac yn trefnu rotas a gofalu am y gwirfoddolwyr.



Mae'r prosiect hwn wedi llwyddo i gyrraedd meini prawf y Gronfa mewn sawl ffordd, drwy fod yn adnodd cymunedol pwysig o fewn tref Nefyn. Mae canol y



dref yn Ardal Gadwraeth ddynodedig ac mae Llwybr yr Arfordir gerllaw. Mae hi'n ganolfan ddefnyddiol i ymwelwyr a thrigolion dderbyn gwybodaeth am ein diwylliant morol cyfoethog - ac yn cydweithio llawer gydag ysgolion a gwasanaethau lleol sy'n gweithio gyda phobl o bob oed a chefnidir. Mae'n bwysig nodi hefyd mai hen eglwys Santes Fair yw'r adeilad ei hun - ac mae hwn yn enghraifft o brosiect sy'n rhan o warchod a diogelu adeilad o bwys hanesyddol.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Amgylchedd Hanesyddol - HP1, HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant - IP1, IP2, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas - CP1, CP2, CP3, CP7)

- **CDC 18.16 Awyr Dywyll Tirweddau Dynodedig Gogledd Cymru**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £3,000 (7%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £47,000

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £27,000 – 57% (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

£7,500 – 16% (AHNE Ynys Môn)

£7,500 –16% (AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy)

£2,000 – 4% (AHNE Llŷn)

Prosiect yw hwn dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Yn 2016, enillodd y Parc statws Gwarchodfa Awyr Dywyll gan yr IDA (International Dark Sky Association) gan adlewyrchu ansawdd uchel awyr dywyll yn yr ardal. Gwnaethpwyd llawer o waith i sicrhau'r dynodiad – ond mae llawer o waith i'w wneud eto i wella dealltwriaeth, defnydd ac chynyddu potensial i unigolion, cymunedau a busnesau. Mae'r prosiect hwn wedi ei ddatblygu er mwyn cynyddu adnoddau APC Eryri i ymwneud â'r dynodiad trwy gyflogi swyddog i barhau gyda'r gwaith ynghlwm â'r statws - ac i gynorthwyo Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gogledd Cymru i gael statws Awyr Dywyll hefyd. Yn Ionawr 2019, cafodd Dani Robertson ei phenodi fel Swyddog Prosiect ac mae hi wedi bod yn gwneud llawer o waith i godi ymwybyddiaeth a chynnal trafodaethau cychwynnol yn lleol.

Mae'r prosiect wedi cyrraedd nifer o feini prawf y Gronfa drwy godi ymwybyddiaeth am un o nodweddion arbennig yr ardal a chyfrannu at waith o gynnal a gwella cynefinoedd i bob math o fywyd gwyllt.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tawelwch a Llygredd Isel – PP3)

(Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt – BP1, BP3, BP4, BP7, BP8)

- **CDC 18.17 Gwyl Fwyd Pwllheli**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £3,000 (17%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £17,750

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £1,000 – 6 % (Cyngor Tref Pwllheli)

£2,750 – 15% (Harlech Food Service – Preifat)

£3,000 – 17% (Noddwyr Eraill)

£500 – 3% (Codi Arian)

£1,500 – 8% (Grant Grŵp Cynefin / CCG)

£3,000 – 17% (Grantiau Eraill)

£1,000 – 6% (Stondinwyr)

£500 – 3% (Elw o'r Bar)

£1,500 – 8% (Amser Gwirfoddol)

Cafwyd cais 2 flynedd gan bwyllgor Gŵyl Fwyd Pwllheli er mwyn cynnal y digwyddiad hwn am y tro cyntaf. Roedd y nawdd yn gymorth i farchnata'r digwyddiad a sicrhau stondinau a llwyfan, a chyfarch costau arddangosfeydd coginio.



Mae'r cais wedi sgorio'n dda yn erbyn meini prawf y Gronfa – drwy roi llwyfan i gynnyrch lleol a chynnal



digwyddiad cymunedol yn llwyddiannus. Yn ogystal â stondinau cynnyrch, roedd Byw'n Iach Dwyfor yn cynnal sesiynau hefyd yn ymwneud ag iechyd a lles. Cafodd nifer fawr o bobl y cyfle i wirfoddoli yn y prosiect hwn gyda'r gwaith paratoi ac ar y diwrnod.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant – IP1, IP2)

(Pobl a Chymdeithas – CP2)

(Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig – GP3, GP4)

- **CDC 19.1 Hen Siop Plas Carmel**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £11,981 (8.49%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £141,145

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £111,476 – 78.98% (RCDF)

£1,500 – 1.06% (Ymddiriedolaeth Laspen ac Oakdale)

£500 - 0.35% (Cyngor Cymuned Aberdaron)

£250 – 0.18% (Cyngor Tref Pwllheli)

£638 – 0.45% (Codi Arian)

£13,000 – 9.21% (Banc Robert Owen)

£1,800 – 1.28% (Amser Gwirfoddol)

Mae safle Plas Carmel yn lle difyr yn ardal Anelog ger Aberdaron. Mae'n cynnwys Capel, tŷ capel a hen siop – oll wedi cadw eu cymeriad gwreiddiol. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu'r safle yn lleoliad i ddehongli treftadaeth leol ac mae'r Gronfa wedi cefnogi llawer o'r gwaith cychwynnol yn y broses. Dros y blynyddoedd diweddar, cefnogwyd ceisiadau i gynnal asesiadau o'r adeilad ac i wella cyflwr yr ardd. Yn 2019/20 – cefnogwyd cais i ddatblygu'r hen siop i gynnwys caffi, siop, gweithdy / uned fenter ac yn cynnig gofod i arddangos gwybodaeth am dreftadaeth yr ardal i'r gymuned ac ymwelwyr.



Cyrhaeddodd y prosiect hwn lawer o feini prawf y Gronfa. Mae'n brosiect cymunedol cryf gyda phwyllgor a nifer o wirfoddolwyr yn arwain. Mae'r Clwb Ffermwyr Ifanc Lleol hefyd wedi cael bod yn rhan o waith clirio'r safle gan roi eu sgiliau gwledig ar waith. Mae'n enghraifft dda hefyd o brosiect sydd yn achub ac adfer un o hen adeiladau gwerthfawr Llŷn. Mae'r Capel wedi ei restru Gradd II*.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiâu hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Amgylchedd Hanesyddol – HP1, HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP2, IP3, IP4)

(Pobl a Chymdeithas – CP1, CP2, CP4, CP5, CP7)

(Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig – GP10)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP3, MP4, MP7, MP8)

- **CDC 19.2 Taith Tridiau Llŷn**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £1,500 (29%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £5,159

Cyfraniad(au) Cyfatebol: Hosbis Dewi Sant

£1,840 – 36% (Amser Gwirfoddol)

Prosiect ar y cyd oedd hwn rhwng dwy elusen leol gyda'r elw yn mynd i'r elusennau hynny. Cynhaliwyd taith gerdded dros gyfnod o dri diwrnod o Abersoch i Borthdinllaen gan roi'r cyfle i bobl fwynhau nodweddion arbennig arfordir yr ardal, cymdeithasu ac ymgymryd â gweithgaredd hamdden iach.



Roedd lle i 100 o bobl gymryd rhan – ac roedd y targed hwnnw wedi ei gyrraedd. Yn ychwanegol at hyn hefyd, cafodd gwirfoddolwyr gymryd rhan a chael eu hyfforddi mewn sgiliau pwysig fel cymorth cyntaf a sgiliau arwain teithiau cerdded.

Mae'r prosiect wedi cyrraedd nifer o feini prawf y Gronfa drwy blethu gweithgaredd hamdden gyda dynodiad yr ardal fel AHNE gan godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo nifer o nodweddion arbennig.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tawelwch a Llygredd Isel – PP1, PP5)

(Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt – BP2, BP7, BP8)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP5, HP6)

(Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP3)

(Pobl a Chymdeithas – CP2, CP7)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP3, MP7, MP8, MP9)

- **CDC 19.3 Hafod Ceiri**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £5,300 (2%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £215,465

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £47,400 – 22% (Cronfa Dreftadaeth y Loteri)

£60,000 – 28% (Cadw)

£50,000 –23% (Sainsbury Family Trust)

£50,000 – 23% (Cornerstones)

£2,765 – 1% (Hafod Ceiri)

£1,000 – 0.5% (Amser Gwirfoddol)

Mae datblygiadau ar y gweill ym mhentref Llithfaen i achub ac adfer Capel Isa'. Mae Capel Isa' bellach wedi cau ac mae ei gyflwr yn dirywio. Mae wedi ei restru gan Cadw (Gradd II) ac yn adeilad trawiadol yn y pentref ac yn nhirlun yr AHNE. Mae bwriad i adfer Capel Isa' yn adeilad cymunedol pwrpasol gyda chaffi ac unedau busnes – ac mae'r fenter wedi ei henwi yn Hafod Ceiri. Mae'n fwriad hefyd i godi ymwybyddiaeth am nodweddion hanesyddol o bwys yn yr ardal. Rhaid pwysleisio fod yr adeilad hwn o fewn golwg i Dre'r Ceiri – sef un o fryngaerau mwyaf eiconig Prydain. Mae nawdd 2019/20 o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cyfrannu at welliannau mewnol i nenfwd yr adeilad.



Cyrhaedda'r prosiect lawer o feini prawf y Gronfa – gan warchod a gwella un o adeiladau eiconig yr ardal a rhan fawr o dreftadaeth yr ardal. Mae llawer o wirfoddolwr yn rhan o'r prosiect hwn hefyd drwy waith gweinyddol, cyfrannu at y pwyllgor a threfnu digwyddiadau codi arian.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tirlun ac Arfordir - TP11)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP1, HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP2, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas – CP1, CP2, CP7)

(Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig – GP6)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP3, MP8, MP9)

- **CDC 19.4 Wal Mynwent Eglwys Clynnog Fawr**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £4,319 (41%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £10,600

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £102 – 1% (Rhoddion)

£6,179 – 58% (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr)

Prosiect dan arweiniad Cyngor Cymuned Clynnog Fawr ar safle hanesyddol Eglwys Beuno Sant. Dyma safle eiconig yn yr AHNE sydd yn gysylltiedig â Llwybr y Pererinion dros y canrifoedd. Roedd y safle hwn yn ganolfan bwysig i'r seintiau ar eu taith i Enlli. Mae hefyd oddi fewn Ardal Gadwraeth ddynodedig. Mae nawdd wedi ei roi o'r Gronfa yn y gorffennol i gynnal



gwelliannau i lwybrau yn y fynwent ac ail-godi rhannai o waliau'r fynwent oedd wedi dymchwel. Yn 2019/20 – daeth cais pellach gyda'r bwriad o ail-godi rhan hir o'r wal oedd mewn cyflwr gwael ac oedd yn bur debyg o ddymchwel yn y dyfodol.



Mae'r gwaith wedi cyrraedd nifer o feini prawf y Gronfa gan wella a gwarchod safle hanesyddol o bwys – mae'r Eglwys ei hun wedi ei rhestru gan Cadw (Gradd I). Mae'r safle hefyd ger Llwybr Arfordir Cymru a'r brif lôn yr A499.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tirlun ac Arfordir – TP4, TP11)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP1, HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP3)

(Pobl a Chymdeithas – CP2)

- **CDC 19.5 Gwyl R S Thomas**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £990 (17%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £5,765

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £4,125 – 72% (Gwerthiant Tocynnau)

£300 -5% (Aelodau)

£300 - 5% (Llenyddiaeth Cymru)

£50 – 1% (Gwerthiant Rhaglenni)

Cynhelir yr Ŵyl hon yn Aberdaron - i ddathlu gwaith y bardd RS Thomas a'i wraig Elsi Eldridge. Roedd RS Thomas yn ficer ym mhlwyf Aberdaron am flynyddoedd. Mae'r Ŵyl hon yn dathlu eu cyfraniad drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol a gwahodd siaradwyr gwadd i gynnal darlithoedd. Mae'r holl ddigwyddiadau yn cael eu cynnal o gwmpas y pentref gan gynnwys Eglwys Hywyn Sant, Ysgol Crud y Werin a Chanolfan Porth y Swnt. Bu nawdd o'r Gronfa yn cynorthwyo tuag at gostau llogi, costau siaradwyr gwadd ac adloniant megis côr meibion lleol a chostau marchnata. Cynhaliwyd taith gerdded arbennig hefyd yn dilyn llwybrau arbennig a ddefnyddiwyd gan RS Thomas gan drafod ei lenyddiaeth a thynnu sylw at y bywyd gwyllt arbennig wrth grwydro.



Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisïau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt – BP7, BP8)

(Amgylchedd Hanesyddol - HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas – CP2)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP1, MP3, MP7, MP8, MP9)



- **CDC 19.10 Sgyrsiau Hanes Lleol Bryncroes**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £610 (71%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £853.75

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £243.75 – 29% - (Oriau Gwirfoddol)



Cynhaliwyd cyfres o ddarlithoedd ar safle hen ysgol Bryncroes, sydd bellach yn ganolfan gymunedol. Darlithoedd am hanes lleol oedd y rhain – gyda’r testunau yn amrywio o Hanes Hen Felinoedd Llŷn gan Glyn Roberts. Roedd dros 40 o bobl yn bresennol ymhob sgwrs gydag adborth da – a chynhaliwyd 8 sgwrs i gyd. Mae cyfraniad y Gronfa yn golygu fod costau rhedeg y ganolfan, costau siaradwyr gwadd a chostau marchnata yn cael eu cyfarch – gan felly olygu nad oes unrhyw gostau mynediad i’r mynychwyr.

O ran meini prawf y Gronfa, roedd y prosiect yn bodloni llawer ohonynt – yn y modd roedd yn cynnal digwyddiad cymdeithasol a chreu defnydd i’r hen ysgol. Roedd hefyd yn codi ymwybyddiaeth pobl am ein hanes a threftadaeth cyfoethog.

Mae’r prosiect yn ymateb i’r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Amgylchedd Hanesyddol – HP5)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas – CP2)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP3, MP8, MP9)

- **CDC 19.11 Capel Ceidio**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £4,000 (60%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:-£6,700

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £300 – 4% (Amser Gwirfoddol)

£2,400 – 36% (Capel Ceidio)

Dyma brosiect i gynnal gwelliannau i Gapel Peniel, Ceidio. Er nad yn adeilad rhestredig – mae Capel Ceidio wedi cadw ei gyflwr yn dda ac yn cyfrannu at amgylchedd hanesyddol yr AHNE. Cynhelir Eisteddfod yno yn flynyddol ac yno hefyd y bydd y Clwb Ffermwyr Ifanc Lleol yn cynnal ymarferion – felly mae llawer o ddefnydd cymunedol iddo. Roedd y prosiect hwn yn cynnwys gwella'r maes parcio, tirlunio a phaentio gyda'r Clwb Ffermwyr Ifanc Lleol yn cyfrannu amser gwirfoddol ar y safle.



Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisïau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tirlun ac Arfordir – TP11)

(Cynefinoedd a Bywyd Gwylt – BP7, BP8)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP3, IP4)

(Pobl a Chymdeithas – CP1, CP2)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP8, MP9)

- **CDC 19.12 Tafarn yr Heliwr**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £8,610 (70%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £12,334

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £2,494 – 20% (Oriau Gwirfoddol)

£1,230 – 10% (Codi Arian)

Ar Stryd Fawr tref Nefyn, yng nghanol Ardal Cadwraeth ddynodedig – mae Tafarn yr Heliwr, sydd wedi bod ar gau ers peth amser a'i gyflwr yn dirywio. Yn dilyn cyfarfod



cyhoeddus – daeth Pwyllgor at ei gilydd ac yn dilyn cyfnod o godi arian – mae'r adeilad bellach wedi ei brynu ac mae gwaith yn mynd ymlaen i'w ddatblygu yn dafarn gymunedol, llely a hwb i bob math o weithgareddau cymdeithasol. Mae'n brosiect hirdymor gyda nifer fawr o bobl yn gwirfoddoli ac wedi prynu cyfranddaliadau. Mae'n brosiect cyffrous

hefyd gyda'r potensial enfawr o gyfrannu yn bositif at yr economi a'r gymuned leol. Mae nawdd o'r Gronfa yn y flwyddyn hon wedi ei cyfrannu at ffenestri newydd gan saer lleol.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tirlun ac Arfordir – TP11)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP2, HP3, HP5, HP6)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP2, IP3)

(Pobl a Chymdeithas – CP1, CP2, CP3, CP4, CP5, CP7)

(Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig – GP6)

(Hawliau Tramwy a Mynediad – MP3, MP4, MP7, MP8, MP9)

- **CDC 19.14 Arwyddion Newydd Eglwysi Bro Madryn**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £750 (79%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £950

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £250– 21%(Oriau Gwirfoddol)

Dyma brosiect i wella'r arwyddion i Eglwys Pistyll. Mae hon yn Eglwys hynafol, wedi ei lleoli ar Lwybr Arfordir Cymru ac ar lwybr traddodiadol y pererinion i Enlli. Mae wedi ei rhestru gan Cadw (Gradd I) ac felly yn cyfrannu yn fawr i amgylchedd hanesyddol yr AHNE. Roedd yr arwyddion yn y lôn wedi dirywio gyda'r wybodaeth arnynt wedi dyddio felly cefnogwyd y cais am arwydd newydd.

Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Amgylchedd Hanesyddol – HP2, HP6)

(Pobl a Chymdeithas – CP2, CP7)

- **CDC 19.16 Parêd Dewi Sant Pwllheli**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £2080.70 (50%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £4,161.40

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £500– 12% - (Cyngor Tref Pwllheli)

£500 – 12% (ASDA Pwllheli)

£1,080.70 – 26% (Ysgolion)



Fel rhan o ddathliadau Cymreictod yr ardal, mae Pwyllgor Parêd Dewi Sant yn cynnal pob math o weithgareddau bob blwyddyn yn amrywio o'r Parêd, sesiynau celf a chreffft i blant, gwersi Cymraeg ac wythnos Tapas Llŷn. Mae'r Parêd yn ddigwyddiad cymunedol a phwysig yng nghalendr digwyddiadau'r ardal. Mae cyfle i ddathlu diwylliant a threftadaeth unigryw yr ardal a gwneir llawer

o waith gyda'r ysgolion lleol a busnesau'r dref gyda bwrlwm gwahanol gystadlaethau. Mae cystadleuaeth ffenestr siop ymysg busnesau tref Pwllheli wedi mynd o nerth i nerth! Mae'r wythnos Tapas hefyd yn hyrwyddo a chefnogi cynnyrch lleol drwy gynnig bwydlen arbennig yn ystod cyfnod y Parêd.



Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP2, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas – CP2, CP7)

(Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig – GP4)

- **CDC 19.17 Be Nawn Ni Heddiw**

Cyfraniad Cronfa Datblygu Cynaliadwy – £1,000 (74%)

Cyfanswm Prosiect Cyfan:- £1,350

Cyfraniad(au) Cyfatebol:- £350 - 26% - (Be Nawn Ni Heddiw)

Mae Be Nawn Ni Heddiw yn brosiect sy'n cynnig rhaglen o weithgareddau cymunedol. Maent yn amrywio o sesiynau celf a chrefft, prynhawn yng nghwmni cerddorion poblogaidd i sgysiau am hanes lleol - ac mae pobl o bob oed yn gallu cymryd rhan gyda chefnogaeth cludiant cymunedol O Ddrws i Ddrws. Cefnogwyd y prosiect hwn yn 2019/20 oherwydd y modd mae'n cynnig cyfle i bobl gymdeithasu a chyfarfod pobl newydd a chodi ymwybyddiaeth am hanes lleol a hyrwyddo busnesau lleol. Mae'r nawdd yn galluogi'r prosiect i dalu am siaradwyr gwadd, llogi lleoliad a chostau paned a lluniaeth.



Mae'r prosiect yn ymateb i'r polisiau hyn yn Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn:-

(Tirlun ac Arfordir – TP11)

(Tawelwch a Llygredd Isel – PP1)

(Amgylchedd Hanesyddol – HP5)

(Iaith Gymraeg a Diwylliant – IP1, IP3, IP4, IP5)

(Pobl a Chymdeithas – CP2, CP7)

5.0 CYMORTH YN 2020/21 A THU HWNT

- 5.1 Mae £100,000 wedi ei gynnig i Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn ym mlwyddyn ariannol 2020/21 ac rydym yn dra diolchgar am hynny. Hyd yma (Awst 6ed 2020) – mae 8 prosiect wedi eu cefnogi. Daw eu cyfanswm, yn ogystal â'r costau gweinyddol (10%) i **£58,627,12**. Dyma grynodedb ohonynt:-

- CDC 20.1 Amgueddfa Forwrol Llŷn
- CDC 20.4 Arddangosfa Ysgol Llanaelhaearn
- CDC 20.5 Cofeb Aberdaron
- CDC 20.6 Cae Chwarae Aberdaron
- CDC 20.7 Tafarn yr Heliwr
- CDC 20.8 Melin Daron
- CDC 20.9 Storws Enlli
- CDC 20.11 Iard Porth Ysgaden

- 5.2 Mae llawer o ymholiadau wedi dod i law ar gyfer gweddill yr arian – ac mae bwriad cynnal cyfarfod Panel Grantiau ddiwedd mis Medi.

- 5.3 Rydym eisoes hefyd wedi dechrau derbyn ymholiadau ar gyfer ceisiadau posibl ar gyfer 2021/22. Mae rhai yn brosiectau newydd, ac eraill yn rhai o'r prosiectau uchod sy'n sylweddol ac yn hir-dymor (e.e. Melin Daron a Storws Enlli).

6.0 CRYNHOI

- 6.1 Cefnogwyd yn mlwyddyn ariannol 2019-2020, 14 o brosiectau i gyd ac rydym yn ddiolchgar iawn o'r cyllid - sydd wedi cefnogi mentrau a sicrhau newidiadau positif yn yr ardal. Rydym yn hyderus fod yr holl brosiectau wedi cyrraedd amcanion y Gronfa. Mae adborth yr ymgeiswyr yn ategu hefyd fod cyfraniad y Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi bod yn allweddol i'w llwyddiannau. Os oes unrhyw gwestiynau pellach neu wybodaeth sydd ei angen – mae croeso i chi gysylltu gyda ni ar ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru / 01758 704 176.

DYRANIAD 2020-2021 £100,000

Cyfeirnod	Enw'r Prosiect	Swm Gynigiwyd
	HAWLIAD GWEINYDDOL	£10,000.00
CDC 20.1	Amgueddfa Forwrol Llŷn	£2,980.00
CDC 20.2	Bws Arfordir Llŷn	£0.00
CDC 20.3	Gŵyl RS Thomas	£0.00
CDC 20.4	Arddangosfa Ysgol Llanaelhaearn	£0.00
CDC 20.5	Cofeb Aberdaron	£1,623.00
CDC 20.6	Cae Chwarae Aberdaron	£23,305.54
CDC 20.7	Tafarn yr Heliwr	£4,628.66
CDC 20.8	Melin Daron	£5,000.00
CDC 20.9	Storws Enlli	£7,500.00
CDC 20.10	Hen Luniau Efallinewydd, Penrhos a Llannor	£95.00
CDC 20.11	Iard Porth Ysgaden	£3,139.92
CDC 20.12	Astudiaeth Pwyntiau Gwefru - Congol Meinciau	£1,800.00
CDC 20.13	Maes Parcio Aberdesach	£5,200.00
CDC 20.14	Gardd Ysgol Botwnnog	£3,600.00
CDC 20.15	Hafod Ceiri	£0.00
CDC 20.16	Teithio Trydan	£0.00
CDC 20.17	Brain Coesgoch Llŷn -RSPB	£3,875
CDC 20.18	Capel Newydd Nanhoron	£1,185.00
CDC 20.19	Plannu Blodau, Botwnnog	£160.00
CDC 20.20	Porth Cychod	£2,243.00
CDC 20.21	Ystafell Ddosbarth Ysgol Botwnnog	£17,304.00
CYFANSWM		£93,639.12

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	Tachwedd 18fed 2020
TEITL	Prosiectau AHNE Llŷn
PWRPAS	Diweddarau'r Aelodau
AWDUR	Swyddog AHNE
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor am brosiectau diweddar gan Uned AHNE Llŷn, Gwasanaeth Cefn Gwlad.
- 1.2 Yn anffodus oherwydd y pandemig COVID 19 a'r cyfyngiadau nid oedd yn bosibl gwireddu rhai o brosiectau oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn hon. Roedd y prosiectau hyn yn cynnwys gwaith ar y cyd gyda Cadw Cymru'n Daculus gyda sbwriel morol a sefydlu grŵp gwirfoddolwyr. Fodd bynnag mae nifer o brosiectau wedi ei cyflawni.

2.0 PROSIECTAU DIWEDDAR

- 2.1 **Rhywogaethau Ymledol** – parhawyd â'r prosiect i daclo'r Efwr Enfawr ar afon Soch ar y cyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Bu yn bosibl comisiynnu contractwr proffesiynol i chwistrellu'r Efwr (yn goes y planhigyn). Y gobaith yw y gellir gwaredu'r planhigyn ymledol hwn o'r cyffiniau yn gyfan gwbwl yn fuan.
- 2.2 **Biniau Ailgylchu** - er mwyn ceisio annog ailgylchu a lleihau sbwriel sy'n mynd i safleoedd tirlenwi mae'r Uned wedi gosod biniau ailgylchu pwrpasol mewn 3 lleoliad yn yr AHNE. Rydym wedi cydweithio gyda Gwasanaeth Bwrdeistrefol y Cyngor a'r aelodau lleol i ddewis lleoliadau addas ar gyfer y biniau ac yn y diwedd penderfynwyd ar y lleoliadau canlynol:

- safle picnic y Foel Gron, Mynytho
- ger y toiledau, traeth Aberoch
- ger y lloches bws, pentref Trefor

Mae'r biniau yn cynnwys rhannau i gasglu poteli, papur a photeli plastig yn ogystal â rhan i roi sbwriel cyffredinol. Rydym yn mawr obeithio y bydd y biniau newydd yn llwyddiant ac yn ystyried gosod rhai eraill yn y dyfodol.

- 2.3 **Capel Newydd Nanhoron** – bu'r Uned AHNE yn cefnogi Ymddiriedolwyr Capel Newydd Nanhoron i ail-danio y gwaith o ofalu am y capel unigryw hwn sydd yn adeilad rhestriedig gradd I. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer penodi swyddogion a chynorthwyo i lunio cynigion ar gyfer y dyfodol. Hefyd bu i'r

Uned AHNE gomisiynu gwaith clirio a barbio er tacluso a medru ymweld ac archwilio y safle yn hwylus.

- 2.4 **Pwyntiau Hanes** – mae'r Uned AHNE yn gweithio efo prosiect Pwyntiau Hanes/ History Points sydd yn gosod placiau QR ar hyd arfordir yr ardal. Yn ogystal ag awgrymu mannau i osod placiau mae'r Uned wedi arwain ar waith cyfieithu er sicrhau fod yr wybodaeth yn gwbl ddwyieithog. Cadwch olwg am y placiau ar hyd llwybr yr arfordir.
- 2.5 **Dynodiad Awyr Dywyll** – mae adroddiad ar wahân ar y prosiect hwn.

3.0 PROSIECTAU CYFALAF – CYLLID LLYWODRAETH CYMRU

- 3.1 Eto yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2019-20) derbyniwyd arian gan Llywodraeth Cymru (LLC) tuag at brosiectau cyfalaf yn yr AHNE. Mae AHNE Llŷn, a'r 4 AHNE arall yng Nghymru, wedi derbyn yr arian yma ers sawl blwyddyn bellach. Y tro yma derbyniwyd cyfanswm o £59,000 o grant yn benodol tuag at y gwaith canlynol:
- Gwella llwybrau a llwybrau ceffyl
 - Cynnal ac adfer arwyddbyst ac arwyddion traddodiadol
 - Arwyddion trothwy yr AHNE
- 3.2 **Gwella llwybrau a llwybrau ceffyl yn Llŷn** – bu'r Uned Hawliau Tramwy yn arwain ar y prosiect yma i wneud gwelliannau i lwybrau ym mhlwyf Llanengan a Thudweiliog. Roedd yn gwaith yn cynnwys gosod "sleepers" dros fannau gwlyb, gwaith draenio, creu grisiau a gosod giatiau yn lle camfeydd. Roedd cyfanswm gwariant ar y gwaith yma oddeutu £48,000.
- 3.3 **Arwyddion ac arwyddbyst** - derbyniwyd £10,000 tuag at waith cynnal a chadw arwyddion ac arwyddbyst hanesyddol yn yr AHNE. Mae'r arian wedi ei ddefnyddio i lanhau yr arwyddion ac arwyddbyst, cynhyrchu a gosod 4 arwydd pentref newydd (Llanealhaearn x 2, Efailnewydd a Morfa Nefyn). Bydd gweddill yr arian yn cael ei wario ar mân waith trwsio a phaentio ar yr arwyddbyst (Gwanwyn 2021).
- 3.4 **Arwyddion trothwy** – mae tair carreg ithfaen gyda placiau llechen a logo yr AHNE wedi ei gosod ar ffin yr AHNE yn Aberdaron, Aberdesach a Llanbedrog. Roedd y plac llechen yn Llanbedrog wedi hollti a'r lleill hefyd wedi cracio felly penderfynwyd eu hadnewyddu. Cwmni Cerrig o Bwllheli wnaeth y placiau newydd ac fe'u gosodwyd gan contractwr lleol.
- 3.5 **Tirweddau Cynaliadwy – Lleoedd Cynaliadwy** – yn mis Mawrth eleni derbyniwyd cyfle eto gan Llywodraeth Cymru i ymgeisio am gyllid cyfalaf. Y tro hwn roedd rhaid i gynigion fod yn ymwneud â dadgarboneiddio neu twristiaeth gynaliadwy – gyda pwyslais ar adnoddau yr Awdurdod Lleol.

Wedi trafodaethau mewnol a sgysiau gyda swyddogion LLC cyflwynwyd cais am gefnogaeth ariannol i'r prosiectau canlynol:

- Gwelliannau ger y traeth yn Machroes ger Abersoch.
- Adnewyddu ac uwchraddio y toiledau ger traeth, Morfa Nefyn
- Cerbyd trydan a phwyntiau gwefru yn Ffordd y Cob, Pwllheli

4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.

Eitem 10

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	Tachwedd 18fed 2020
TEITL	Dynodiad Awyr Dywyll
PWRPAS	Gwybyddu Aelodau a cheisio cefnogaeth
AWDUR	Swyddog AHNE
ARGYMHELLIAD	Cefnogi cais am statws Parc Awyr Dywyll

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Ers peth amser mae'r Uned AHNE wedi bod yn gweithio tuag at geisio am statws Awyr Dywyll Rhyngwladol ar gyfer ardal AHNE Llŷn.
- 1.2 Y cam cychwynnol oedd comisiynnu Arolwg Awyr Dywyll er asesu pa mor dywyll oedd awyr y nos yn yr ardal a faint o lygredd goleuadau oedd yn bodoli. Dangosodd yr arolwg yma, a ariannwyd gan Llywodraeth Cymru, fod awyr y nos yn dywyll iawn mewn rhannau o Llŷn ac mai ychydig iawn o lygredd oedd yn bodoli.

2.0 PROSIECT NOS

- 2.1 Daeth yn amlwg yn fuan fod AHNE Ynys Môn ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy hefyd yn gweithio ar geisiadau statws awyr dywyll tra bod Parc Cenedlaethol Eryri eisioes wedi derbyn dynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll. Penderfynodd y gallai'r pedair ardal gydweithio ar waith awyr dywyll a sefydlwyd Prosiect "Nos".
- 2.2 Bwriad prosiect Nos yw cydweithio i gynnal, gwarchod a hyrwyddo awyr dywyll y nos yn yr ardaloedd a gweithio ar statws rhyngwladol Awyr Dywyll. Fel rhan o'r prosiect bydd monitro cyson o'r awyr dywyll, codi ymwybyddiaeth am lygredd goleuadau a chynnal digwyddiadau gwyllo sêr. Mae gwaith prosiect Nos yn cael ei gydgorio gan y swyddog prosiect –Dani Robertson. Bydd Dani yn ymuno yn y cyfarfod i sôn mwy am brosiect Nos.

3.0 CAIS AM STATWS AWYR DYWYLL I AHNE LLYN

- 3.1 Yr International Dark Sky Association (IDA) sydd wedi sefydlu y cysyniad o ardaloedd Awyr Dywyll ac yn rheoli y broses ddynodi. Mae gwahanol fathau o ddynodiadau yn bosibl – yn cynnwys statws Noddfa, Cymuned, Parc a Gwarchodfa.
- 3.2 Yn wreiddiol roedd Uned AHNE Llŷn yn bwriad ymgeisio am statws Cymuned ar gyfer yr ardal. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ganlyniadau monitro a thrafodaeth gyda'r IDA rydym o'r farn y byddai statws Parc yn

adlewyrchiad gwell o safon yr awyr dywyll yn yr ardal yn ogystal â rhoi mwy o statws i'r ardal.

4.0 ARGYMHELLIAD

- 4.1 Cefnogi cais gan Uned AHNE i'r IDA am ddynodiad Parc Awyr Dywyll ar gyfer AHNE Llŷn.